# Y CYNGOR, 19/06/08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** S W Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Evans, Alun Wyn Evans, Simon Glyn, K Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J W Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau), D P Lewis (Cyfarwyddwr Strategol - Gofal), Dewi Rowlands (Cyfarwyddwr Strategol - Amgylchedd) Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Strategol - Datblygu), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Sioned Williams (Pennaeth Economi ac Adfywio)Dewi Jones (Pennaeth Ysgolion), Iwan Roberts (Uwch Reolwr Gwasanaeth Ysgolion), Seimon John Rhys Williams (Rheolwr Prosiect - Trefniadaeth Ysgolion), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Bob Anderson, Jean Forsyth, Len Jones, Linda Wyn Jones a Roy Owen

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Mai 2008 fel rhai cywir.

## 3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(A) Ad-drefnu Ysgolion Cynradd

(i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn arweiniol wedi ei baratoi gan y Swyddog Monitro.

Atgoffwyd yr aelodau mai cyfrifoldeb pob aelod unigol oedd penderfynu os oedd ganddo/ganddi fuddiant i'w ddatgan ai peidio.

Dan y Cod Ymddygiad newydd, eglurwyd bod gan bob aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gorf llywodraethu ysgolion hawl i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

Fodd bynnag, dylai unrhyw aelodau sydd â chysylltiad arall gydag ysgolion Rhydyclafdy neu Groesor ddatgan buddiant dan y cod ac ystyried gadael y Siambr yn ystod y drafodaeth.

Ymhellach, er nad oedd yr adroddiad yn delio gyda sefyllfa ysgolion penodol eraill, eglurwyd y dylai aelodau ystyried a fydd penderfyniad cyffredinol ar gynllun ad-drefnu ysgolion cynradd yn debyg o effeithio lles neu sefyllfa ariannol person oedd gan aelod gysylltiad agos a hwy, - boed yn ddisgybl neu weithiwr mewn ysgol.

(ii) Datganodd y ddau aelod canlynol gysylltiad personol gydag ysgolion penodol, a'u bod wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau:-

Y Cynghorydd P G Larsen oherwydd bod ganddi ddau fab oedd yn brifathrawon yn y sir - un yn Ysgol yr Eifl, Trefor a'r llall yn Ysgol Rhostryfan;
Y Cynghorydd Dyfrig Jones oherwydd bod perthynas yng nghyfraith iddo yn Bennaeth Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun.

(iii) Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol agos gydag ysgolion penodol ac y byddent yn gadael y Siambr pe byddai trafodaethau penodol ar yr ysgolion dan sylw:-

Y Cynghorydd Dylan Edwards - cysylltiad teuluol ac ysgolion cynradd yng Ngwynedd
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn - plentyn yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Dolgellau
Y Cynghorydd Louise Hughes - merch yn ddisgybl yn Ysgol Llanegryn;
Y cynghorydd Aeron Jones - plant yn ddisgyblion mewn ysgol gynradd yng Ngwynedd;
Y Cynghorydd Gethin Williams - plant yn ddisgyblion yn Ysgol y Clogau, Bontddu
Y Cynghorydd Llinos Merks – plant yn ddisgyblion yn Ysgol Nefyn
Y Cynghorydd Alun Wyn Evans - gwraig yn athrawes mewn ysgol gynradd yng Ngwynedd;
Y Cynghorydd Siân Gwenllian - cysylltiad personol a thair ysgol gynradd yng Ngwynedd
Y Cynghorydd Elwyn Edwards - cysylltiad teuluol ag Ysgol Glanrafon
Y Cynghorydd John Gwilym Jones - cysylltiad teuluol ag ysgol gynradd yng Ngwynedd
Y Cynghorydd Dafydd Roberts - merch yn ddisgybl yn Ysgol Bro Tegid, Y Bala
Y Cynghorydd John Pughe Roberts - gwraig yn athrawes ysgol gynradd
Y Cynghorydd Simon Glyn - cysylltiad teuluol ag ysgolion cynradd yng Ngwynedd
Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd - merch yn ddisgybl yn Ysgol Carmel
Y Cynghorydd Eryl Jones Williams -perthynas yn Ysgol y Bermo
Y Cynghorydd Guto Rhys Thomas – plant yn ysgol y Gorlan Tremadog
Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones – mab yn Brifathro
Y Cynghorydd Owain Williams – merch sy'n seicolegydd

(iv) Datganodd yr Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu diddordeb yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Cynradd oherwydd bod ganddo fab yn ddisgybl yn Ysgol Bro Lleu, Penygroes

(B) **Rhybudd o gynnig Maes Awyr Llanbedr**

(i) Gwnaed datganiad gan yr aelodau canlynol mewn perthynas â'r rhybudd o gynnig ynglŷn â Maes Awyr Llanbedr oherwydd eu bod yn aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Fe'u cynghorwyd i beidio siarad na phleidleisio ar y mater:-

Y Cynghorwyr Thomas Ellis, Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd Huw Hughes J.R.Jones Caerwyn Roberts, Dyfrig Siencyn, Gwilym Williams, a Gethin Williams

(ii) Datganodd Pennaeth Cyllid y Cyngor ddiddordeb yn y Rhybudd o Gynnig parthed maes awyr Llanbedr lle gofynnir i'r Cyngor gyfleu neges ynghylch mater cynllunio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oherwydd ei fod yn dal swydd rhan amser fel Prif Swyddog cyllid Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## 4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawyd yn gynnes i'r Cyngor y Cynghorydd Dafydd Lloyd Hughes, aelod newydd Bowydd a Rhiw.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Bob Wright ar dderbyn yr MBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn ddiweddar

Hefyd y cyn-gynghorydd Morgan Vaughan o Dywyn a chyn-ysgrifennydd Cyngor Dosbarth Dwyfor, Dennis Hughes Roberts ar dderbyn yr un anrhydedd, ynghyd a phob un arall o Wynedd oedd wedi eu cynnwys ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Glyn Roberts ar golli ei dad yn ddiweddar.

Hefyd cydymdeimlwyd a theulu John Wyn Jones, swyddog cynllunio ardal Arfon a fu farw'n ddiweddar. Roddodd flynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr i'r ardal a bydd colled fawr ar ei ôl.

Mynegwyd cydymdeimlad â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

## 5 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyniwyd, er gwybodaeth, llythyr oddi wrth Dafydd Guto Ifan ynglŷn â gwella darpariaeth o stampiau post Cymreig yng Nghymru.

## 6 MATER BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys rhybudd o gynnig brys gan y Cynghorydd Simon Glyn ynglŷn â newid trefniadau addysg arbennig yn y sir. Roedd y mater wedi dod i sylw'r aelod yn ddiweddar iawn, a chan bwriedir gweithredu'r trefniant newydd ym Medi 2008, roedd angen trafodaeth fuan ar y mater.

## 7 CWESTIYNAU

Cwestiwn gan y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts:

"O gofio'r gorbwysais o ganoli twf yn ardal Môn Menai o fewn y Cynllun Gorfodol - Beth yw strategaeth y Cyngor i sicrhau gwasgaru twf i ardaloedd eraill gan gynnwys Dwyfor a Meirionnydd wledig?"

Ymateb y Cynghorydd Dewi Lewis, Uwch Arweinydd Datblygu:

Diolch am y cwestiwn.

a) Cyhoeddwyd fersiwn cyntaf Cynllun Gofodol Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2004. Ers hynny, mae Cyngor Gwynedd wedi gweithio'n gyson gyda phartneriaid lleol i ddylanwadu ar y Cynllun drwy gyflwyno dadleuon mewn sawl fforwm i leihau'r ddibyniaeth ar ddatblygu nifer fach o ardaloedd a chyflwyno'r achos i ledaenu datblygiad ar draws y Gogledd Orllewin.

b) Mae'r diweddariad o'r Cynllun Gofodol - cyhoeddwyd ar ffurf drafft yn Ionawr 2008 - yn gam ymlaen. Mae rhannau o Wynedd o fewn dwy Ardal Cynllun Gofodol, Eryri a Môn a Chanol Cymru. Yn Eryri a Môn, dynodwyd parth o Borthmadog i Bwllheli yn ardal ffocws ychwanegol. Yng Nghanol Cymru, dynodir ardal Meirionnydd yn glwstwr o aneddiadau allweddol gan gydnabod pwysigrwydd rhwydwaith trefi a prif bentrefi'r ardal.

c) Cytunwyd i ymateb y Cyngor i'r ddogfen drafft yng nghyfarfod o'r Bwrdd ar yr 8 Ebrill, 2008. Nodwyd yn yr ymateb i'r Cynulliad fod y Cyngor a phartneriaid lleol yn parhau yn bryderus ynglŷn â gor-ganoli, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau dosbarthu twf a'r angen am fuddsoddiad cyhoeddus i sbarduno gweithgaredd economaidd yn ardaloedd mwy heriol ac ymylol. Croesawyd cytundeb swyddogion y Cynllun Gofodol i gydweithio ymhellach ar ddatblygu dulliau a mesurau i ddosbarthu twf.

ch) Yn ogystal â lobio a chynnig sylwadau ar destun y Cynllun Gofodol, mae'r Cyngor:

- Yn arwain datblygiad 'Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru' fydd yn cynnig mesurau i ddosbarthu twf ar draws y rhanbarth (i'w gyflwyno i Fwrdd y Cyngor yng Ngorffennaf, gyda'r cynllun gweithredol i'w gyflwyno yn yr hydref).
- Yn paratoi Strategaeth Cyflogaeth benodol i ardal Meirionnydd yn wyneb y colledion swyddi diweddar mae'r ardal wedi eu dioddef a'r rhagolygon economaidd cymysg (eto i'w gyflwyno i Fwrdd y Cyngor yn yr hydref).
- Rhestr o brosiectau arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Cydgyfeirio wedi ei gyflwyno a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Craffu Datblygu sy'n adnabod cynlluniau blaenoriaeth ledled y sir (ategir y cynlluniau gan y pecyn o geisiadau a gyflwynwyd i'r rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig Cymru - yn targedu £2.4 miliwn o nawdd - er mwyn sbarduno a chefnogi menter yn yr ardaloedd gwledig).
- Strategaeth Adfywio wedi ei ddatblygu a'i fabwysiadu gan y Cyngor yn 2007 sy'n adnabod ardaloedd o gyfle ac angen yn y Sir. Rhaglen i ddatblygu Cynlluniau Adfywio Ardal ar gyfer pob rhan unigol o Wynedd yn cael ei weithredu.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts:**

Diolch am yr ateb.

Credaf fod y ddogfen yn wallus ac rwyf yn bryderus iawn ynglŷn â'r sefyllfa. A fuasai'r Pwyllgor Craffu Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) yn edrych yn fanylach ar y ddogfen?

**Ymateb y Cynghorydd Dewi Lewis, Uwch Arweinydd Datblygu:**

Mae Pwyllgor Craffu Datblygu wedi rhoddi sylw manwl a chyson i'r ddogfen, a bydd y rhoddi sylw pellach i'r ddogfen yn y dyfodol.

**9 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Adroddwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau'n adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor. Yn dilyn isetholiad Bowydd a Rhiw, cyfarfu Grŵp Busnes y Cyngor, a chytunwyd i newid y dyraniad seddau i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Hefyd roedd angen adolygu dyraniad y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau

Nododd Arweinydd Grŵp Llais Gwynedd ei fod o'r farn bod dyraniad seddau ar Fwrdd y Cyngor yn annheg. Eglurodd bod gan Lafur oedd â 4 aelod ar y Cyngor, 1 sedd ar y Bwrdd, fodd bynnag, roedd gan Lais Gwynedd oedd â 13 aelod ar y Cyngor, 2 sedd yn unig ar y Bwrdd.

Pwysleisiwyd bod y Grŵp Busnes wedi cyfarfod ar 6 Mehefin, a bod y pum arweinydd, gan gynnwys Arweinydd Llais Gwynedd, wedi cytuno i'r dyraniad oedd gerbron. Eglurwyd bod arweinwyr y grwpiau Annibynnol a Llais Gwynedd wedi trafod y posibilrwydd iddynt gyfnewid sedd ar y Bwrdd a'r Pwyllgor Craffu Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu). Fodd bynnag, cytunodd y ddau arweinydd i'r dyraniad oedd gerbron, ac roedd y Swyddog Monitro wedi llunio'i hadroddiad yn unol â'r hynny.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi a derbyn cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig canlynol y Cyngor :-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **35** |
| **Annibynnol** | **18** |
| **Llais Gwynedd** | **13** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **5** |
| **Llafur** | **4** |

**(ii) Mabwysiadu'r dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tablau isod:-**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau a Chorfforaethol | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Cwynion | 4 | 2 | 1 | | |
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 5 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Cydbwyllgor AAA | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| Cydbwyllgor Gwastraff | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| Elusennau | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |
| Trethi Annomestig | 3 | 1 | 1 | | |
| Adolygu Tenantiaeth Gyflwyniadol | 2 | 1 | | | |

**(iii) Cadarnhau oriau'r cynorthwywyr gwleidyddol fel a ganlyn:-**

**Plaid Cymru - 29 awr**
**Annibynnol - 15 awr**
**Llais Gwynedd - 11 awr**

## 10 PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro,

Adroddwyd bod angen penodi 3 aelod etholedig ar y Pwyllgor Safonau, ac yn unol â'r trefniadau a gymeradwywyd gan y Cyngor diwethaf, cyfarfu arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i ystyried y ceisiadau.

Mynegwyd anfodlonrwydd am nad oedd cynrychiolaeth o ardal Meirionnydd ymhlith yr aelodau, tra bod 2 aelod o ardal Dwyfor ymhlith yr aelodau i'w penodi.

Eglurwyd bod y Grŵp Busnes wedi defnyddio'r meini prawf a osodwyd ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau, ynghyd â nifer o ystyriaethau eraill gan gynnwys profiad, ymrwymiad, cyfle cyfartal a dosbarthiad daearyddol, ynghyd â chais penodol gan y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor benodi cynrychiolydd benywaidd ar y pwyllgor.

Pwysleisiwyd na ellid sicrhau cwrdd â phob gofyn, a bod y Grŵp Busnes wedi rhoi sylw gofalus iawn i'r gofynion wrth ddewis aelodau i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorwyr Margaret Griffith, Keith Greenly-Jones a Stephen Churchman i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd.**

## 11 AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD Y SIR

(A) Cyflwynwyd:-

(i) Adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu ar y camau nesaf yn y broses o ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir;
(ii) Argymhelliad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion cynradd y sir.

(B) Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu, yn amlinellu cefndir ad-drefnu ysgolion cynradd Gwynedd a'r prif gynigion oedd gerbron.

(i) Adroddwyd bod y Cyngor, ym mis Mawrth 2006 wedi nodi bod y gyfundrefn addysg gynradd yng Ngwynedd yn anghynaladwy, ac ar ddiwedd 2007, penderfynodd ymgynghori ar strategaeth ddrafft, oedd yn cynnig trefniant newydd ar gyfer addysg gynradd y sir.

(ii) Ymhelaethwyd ar yr angen dybryd i newid y trefniadau. Eglurwyd bod y strategaeth ddrafft ymgynghorol a luniwyd er ceisio ymateb i'r sefyllfa yn canolbwyntio ar gau rhai ysgolion; dod a nifer o ysgolion at ei gilydd mewn trefn ffurfiol o gydweithio sef model federal; codi ysgolion ardal newydd a gwarchod yr ysgolion mwyaf rhag unrhyw newid.

Ymgynghorwyd ar y strategaeth rhwng Ionawr a Mawrth 2008, pryd amlygwyd gwrthwynebiad cryf i'r drefn ffederaleiddio, anhawster cael consensws dros gau ysgol ac ymateb cymysg i sefydlu ysgolion ardal

(iii) Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yr angen i greu cyfundrefn gynaliadwy'n parhau, bod angen ystyried dulliau gweithredu newydd ac awgrymwyd camau er mwyn symud ymlaen.

(iv) Manylwyd ar y bwriad o sefydlu Gweithgor i roddi sylw i'r tasgau penodol canlynol:-

- ystyried trefniant newydd er mwyn sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;
- paratoi rhestr o ysgolion i gau, yn unol â meini prawf clir a chadarn;
- cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell ddalgylch.

(v) Cyfeiriwyd at waith ymchwil, tystiolaeth a dogfennaeth fyddai'n ofynnol i'r gweithgor roddi sylw manwl iddynt cyn ymgymryd â'r tasgau, gan gynnwys canllawiau newydd y Cynulliad er mwyn galluogi ysgolion i gydweithio'n ffurfiol.

(iv) Ymhellach, tynnwyd sylw'r aelodau at ddwy ysgol benodol sef Ysgol Rhydyclafdy ac Ysgol Croesor oedd yn fregus, ac yn peri pryder i'r awdurdod. Derbyniwyd gwybodaeth na fyddai disgybl yn Ysgol Rhydyclafdy ym Medi 2008 a rhagwelir mai 2 ddisgybl yn unig fyddai'n mynychu Ysgol Croesor ym mis Medi.

Adroddwyd bod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi cymeradwyo sefydlu Gweithgor Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir i ymgymryd â thasgau penodol ac wedi enwebu aelodau etholedig i wasanaethu ar y Gweithgor. Hefyd cefnogwyd y bwriad i ymgynghori statudol ar y bwriad o gau Ysgol Rhydyclafdy ac Ysgol Croesor.

(C) Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

(i) Ategodd yr angen i newid trefniadaeth ysgolion y sir, ac ymhelaethodd ar y cyd-destun hanesyddol a demograffeg.

Cyfeiriodd at ffactorau pwysig oedd rhaid ymdopi â hwy, sef:-

- llawer iawn o ysgolion y sir yn hen ac wedi eu sefydlu dros gan mlynedd yn ôl;
- poblogaeth Cymru ar gyfartaledd wedi cynyddu yn ystod y can mlynedd diwethaf, fodd bynnag, roedd poblogaeth Gwynedd wedi gostwng;
- niferoedd plant ar gyfartaledd wedi cynyddu ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod ond roedd niferoedd plant yng Ngwynedd wedi gostwng.

(ii) Manylodd ar ymdrechion Cyngor Gwynedd i leddfu problemau cefn gwlad, trwy gynlluniau tai fforddiadwy a thrwy geisio dylanwadu ar bolisïau economaidd. Fodd bynnag pwysleisiodd bod angen sylw ac atebion cenedlaethol i'r problemau hyn

Cyfeiriodd at ddiffyg y Cynulliad i adnabod problemau gwledig yn effeithiol. Hefyd cyfeiriodd at ddefnydd anaddas o wybodaeth, diffyg sylw a roddir i wybodaeth oedd ar gael a diffyg ymchwil i broblemau cefn gwlad.

Manylodd ar ystadegau'r Cynulliad ynglŷn â'r Dreth Cyngor a materion perthynol. Eglurodd bod y wybodaeth yn anghyflawn ac yn gamarweiniol, a chyflwynodd fanylion cynhwysfawr a pherthnasol oedd yn dangos bod y dull o gyllido cynghorau gwledig yn gwbl annheg.

Pwysleisiodd na adlewyrchir problemau gwledig ym mholisïau'r Cynulliad, a bod rhaid mynnu sylw cenedlaethol iddynt trwy bolisïau economaidd, cynllunio a thai er mwyn sicrhau dyfodol cefn gwlad.

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr am ei gyflwyniad, a hefyd am ei ymdrechion i geisio darbwyllo'r Cynulliad ynglŷn â phroblemau dyrys ardaloedd gwledig.

Ategodd aelodau'r angen i gydweithio'n agos gydag ardaloedd gwledig eraill, a mynnu gwell dyfodol i ardaloedd gwledig, trwy lobio Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn ag anghenion ardaloedd gwledig.

(CH) Cyflwynwyd, er cymeradwyaeth y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Crafu Plant a Phobl Ifanc, sef:-

*(a) Cydnabod na fu i'r ymgynghoriad blaenorol dderbyn cefnogaeth ar draws y Sir a chymeradwyo sefydlu Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir o'r newydd i greu trefniadaeth ysgolion cynaliadwy a theg ar gyfer y dyfodol.*

*(b) Gofyn i'r Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd ymgymryd â'r tasgau isod gan adrodd ar gynnydd y meysydd gwaith i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwn ym mis Tachwedd 2008:*

*(i) ystyried trefniant newydd er sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;*
*(ii) i baratoi rhestr o ysgolion i'w cau, yn unol â meini prawf clir a chadarn;*
*(iii) cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell ddalgylch*
*(iv) ymdrin ag unrhyw fater arall yn nhyb y Gweithgor sy'n berthnasol i greu cyfundrefn gynaliadwy.*

*(c) Enwebu 5 aelod (un cynrychiolydd o bob plaid wleidyddol) ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i wasanaethu ar y Gweithgor: Y Cynghorwyr Siân Gwenllïan, Simon Glyn, Brian Jones, June Marshall a Dewi Owen'*

*(ch) Cefnogi'r bwriad o gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad o gau Ysgol Rhydyclafdy ac Ysgol Croesor a gofyn i'r Pwyllgorau Ardal berthnasol ystyried defnydd y ddau adeilad i'r dyfodol.*

Derbyniwyd y cywiriad i benderfyniad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i ddileu'r geiriau " *i greu cyfundrefn gynaliadwy*" o gymal (b)(iv) uchod.

Adroddwyd y cafwyd trafodaeth frwd yn y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Ymhelaethwyd ar y trafodaethau a manylwyd ar argymhellion ychwanegol y pwyllgor mewn perthynas â gwaith a thasgau'r gweithgor - er mwyn sicrhau maes gwaith priodol ac eang i'r gweithgor. Pwysleisiwyd bod gwaith manwl a phwysig i'w gyflawni gan y gweithgor erbyn mis Tachwedd.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gymal (b)(ii) sef " i *ystyried y priodoldeb o gau ysgolion, yn unol â meini prawf clir a chadarn;"*

Cafwyd areithiau niferus, trafodwyd yn llawn y cynigion oedd gerbron, a gofynnwyd i'r gweithgor roddi sylw i nifer o faterion ychwanegol, oedd wedi eu nodi yn y cofnodion.

(i) Cyfeiriwyd at bryderon dwys ynglŷn ag effaith y cynllun blaenorol ar gymunedau bregus Cymraeg, a phwysleisiwyd bod angen osgoi camgymeriadau'r gorffennol.

(ii) Cadarnhawyd bod y cynllun blaenorol wedi ei roi o'r neilltu, ac eglurwyd nad oedd categorïau o ysgolion na rhestr o ysgolion i'w cau mwyach ac nid oedd cynlluniau ar gyfer ffederaleiddio.

(iii) Cefnogwyd yn frwd y bwriad i ddechrau o'r newydd, gan ystyried trefniant ar gyfer cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion yn ogystal ag ystyried y priodoldeb o gau ysgolion, yn unol â meini prawf clir a chadarn. Pwysleisiwyd ei bod yn hanfodol bwysig bod y gweithgor yn rhoddi sylw manwl i ddiffinio'n ofalus y meini prawf.

Hefyd roedd cefnogaeth i'r gweithgor ystyried sefydlu ysgolion ardal - yn amodol ar gytundeb a chydsyniad y cymunedau a'r ysgolion. Pwysleisiwyd bwysigrwydd gwrando'n ofalus ar lais y cymunedau, a llunio strategaeth sy'n adlewyrchu dyheadau'r cymunedau a'r ysgolion. Cyfeiriwyd hefyd bod rôl strategol i'r gweithgor ddarganfod dulliau newydd o drafod gyda chymunedau ac ysgolion.

Yn ogystal cefnogwyd yn fawr rhoddi hawl i'r gweithgor ymdrin ag unrhyw fater arall oedd yn berthnasol yn nhyb y gweithgor, a nodwyd bod yma gyfle i wyntyllu syniadau a chynlluniau creadigol a dychmygus - er mwyn ddarparu'r addysg orau i holl blant y sir.

Cyfeiriwyd at ffactorau oedd wedi gwanhau'r cymunedau, sef diffyg tai fforddiadwy, rheolau cynllunio, diffyg cyflogaeth, a phwysleisiwyd bod angen edrych ar gynlluniau gweithredol i gryfhau, cefnogi a datblygu'r ardaloedd gwledig - gyda'r ysgolion yn rhan ganolog o hynny.

(iv) Croesawyd sefydlu gweithgor gyda chynrychiolaeth ar draws y pleidiau gwleidyddol ac anogwyd yr aelodau i gyd-dynnu a chydweithio er lles cymunedau ac addysg gynradd y sir.

(v) Pwysleisiwyd yr angen i roddi ystyriaeth deilwng i weithiau blaenorol perthnasol sef tystiolaeth a dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad, adroddiad ar asesiadau ardrawiad iaith a diwylliant, a chanllawiau newydd y Cynulliad ,ynghyd ag adnabod astudiaethau pellach perthnasol, adroddiad y Cynulliad .

(vi) Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â phroblemau recriwtio penaethiaid, a gofynnwyd i'r Gweithgor roddi sylw i'r elfen hon;

(vii) Cyfeiriwyd at dwf yn nifer plant mewn rhai cymunedau, a gofynwyd i'r gweithgor ymchwilio i'r mater;

(viii) Nodwyd bod rhieni oedd yn anfon eu plant i ysgolion oddi allan i'r dalgylch yn cyfrannu at broblemau ysgolion gwledig;

(ix) Cyfeiriwyd at yr angen i ddysgu o ymarferion da, a gwahoddwyd y gweithgor i ymweld â chynllun clystyru llwyddiannus yn Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth;

(x) Gwnaed cais i'r gweithgor gynnwys asesiadau ardrawiad amgylcheddol fel rhan o'r trefniadau;

(xi) Cyfeiriwyd at sawl cyfarfod fu yn ardal y Bala pryd gafwyd cytundeb athrawon, cynghorwyr a rhieni ar gyfer ffederaleiddio Ysgol y Bala, Llawr Betws a'r Parc. Roedd awydd cryf i ffederaleiddio'n parhau yn ardal Penllyn, a gofynnwyd i'r gweithgor ymchwilio ymhellach i'r trefniadau.

(xii) Gofynnwyd i'r gweithgor adnabod ardaloedd lle'r oedd cytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen ac ystyried yr opsiynau;

(xiii) Pwysleisiwyd bod safonau addysgol yn greiddiol i waith y gweithgor. Gofynnwyd iddo edrych yn gymharol ar wledydd eraill, gan roddi sylw manwl i'r berthynas rhwng safon addysg a safon byw a'r buddsoddiad/gwariant ar addysg.

Nodwyd bod y gweithgor dan bwysau trwm iawn, bod ganddo gyfrifoldeb enfawr wrth geisio bwrw'r gwaith ymlaen a dymunwyd pob llwyddiant iddo wrth ei waith.

Talwyd teyrnged i staff yr ysgolion oedd wedi bwrw ymlaen a'u gwaith yn urddasol a phroffesiynol mewn cyfnod o ansicrwydd mawr.

(D) Tra'n croesau y rhan helaethaf o'r trefniadau arfaethedig, roedd rhai aelodau'n pryderu bod elfennau amwys ac aneglur i rannau'r o'r cynigon a chynigwyd ac eiliwyd y gwelliant canlynol:--

*"Bod y Cyngor yma heddiw yn datgan yn glir ein bod yn rhoi'r Cynllun a gyhoeddwyd yn y ddogfen "Ad-drefnu addysg i holl blant Gwynedd " o'r neilltu yn gyfan gwbl, ac yn symud ymlaen i adennill ymddiriedaeth yr ysgolion a'r cymunedau er mwyn datrys y materion dyrys yma.*

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 19 (6) cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid (19)**

Y Cynghorwyr S W Churchman, Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Eric Merfyn Jones, W Penri Jones, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Peter Read, Dafydd W Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn (49)**

Y Cynghorwyr E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, T G Ellis, Alan Evans, Alun Wyn Evans, K Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Huw Price Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Ann Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J W Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams a R H Wyn Williams

**Atal (0)**

Datganodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

Pleidleisiwyd ar, a chefnogwyd yn unfrydol y cynnig gwreiddiol oedd yn cynnwys y gwelliant " i *ystyried y priodoldeb o gau ysgolion, yn unol â meini prawf clir a chadarn;" yn unol â chymal (b)(ii)is)od.*

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cydnabod na fu i'r ymgynghoriad blaenorol dderbyn cefnogaeth ar draws y Sir a chymeradwyo sefydlu Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir o'r newydd i greu trefniadaeth ysgolion cynaliadwy a theg ar gyfer y dyfodol.**

**(b) Gofyn i'r Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd ymgymryd â'r tasgau isod gan adrodd ar gynnydd y meysydd gwaith i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ym mis Tachwedd 2008:**
**(i) ystyried trefniant newydd er sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;**
**(ii) ystyried y priodoldeb o gau ysgolion, yn unol â meini prawf clir a chadarn**
**(iii) cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell ddalgylch**
**(iv) ymdrin ag unrhyw fater arall yn nhyb y Gweithgor sy'n berthnasol**

**(c) Enwebu 5 aelod (un cynrychiolydd o bob plaid wleidyddol) ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i wasanaethu ar y Gweithgor: Y Cynghorwyr Siân Gwenllïan, Simon Glyn, Brian Jones, June Marshall a Dewi Owen'**

**(ch)Cefnogi'r bwriad o gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad o gau Ysgol Rhydyclafdy ac Ysgol Croesor a gofyn i'r Pwyllgorau Ardal berthnasol ystyried defnydd y ddau adeilad i'r dyfodol**

## 12 RHYBUDDION O GYNNIG

(a)

(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dylan Edwards o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Y mae datblygu maes awyr Llanbedr, Meirionnydd, fel maes awyr sifil, yn hynod o bwysig i gynnal ac i atgyfnerthu ac i ddatblygu economi a thrafnidiaeth sir Gwynedd.**

**Gofynnaf i Gyngor Gwynedd gefnogi'r bwriad mewn egwyddor i ddatblygu maes awyr Llanbedr yn faes awyr sifil ac i gyfleu'r gefnogaeth honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri"**

(ii) Cyflwynwyd ymateb y Gyfadran Datblygu i'r rhbudd o gynnig.

Manylwyd ar y datblygiadau ers cau Maes Awyr Llanbedr yn 2005 pan fu160 o weithwyr golli eu swyddi, a bwriad Cwmni i redeg maes awyr masnachol, a defnyddio'r adeiladau segur ar y safle fel unedau ar osod i fusnesau.

Roedd y Gyfadran yn cefnogi mewn egwyddor y defnydd arfaethedig o'r maes awyr ac yn cefnogi cysylltu gyda Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, er mwyn datgan cefnogaeth, mewn egwyddor, i faes awyr sifil yn Llanbedr, er mwyn creu cyfleon gwaith o ansawdd yn ardal Meirionnydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu I weithredu ar y cynnig.**

(b) Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Alwyn Griffith, (yn absenoldeb y Cynghorydd Simon Glyn oedd wedi gorfod gadael y cyfarfod), y rhybudd o gynnig brys canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Simon Glyn o dan Reol Gweithdrefn rhif 13:-

**Mae rhieni plant gydag anghenion addysg arbennig mewn unedau mewn ysgolion cynradd Gwynedd wedi derbyn rhybudd bod y drefn o fynychu am 5 bore bob wythnos yn dod i ben ar ddiwedd y tymor hwn.**

**O fis Medi nesaf bydd y plant yn mynychu am 2 ddiwrnod cyfan ac yna yn dychwelyd i'w hysgolion.**

**Deallaf nad yw'r penderfyniad yma wedi ei wneud gan aelodau ac nad oes ymgynghori wedi bod gyda'r athrawon sydd yn dysgu'r plant.**

**Mae'r newidiadau hyn yn golygu na fydd penaethiaid yn medru cynnwys y plant sydd yn mynychu'r unedau yn yr holl weithgareddau statudol oddi fewn i'r cwricwlwm.**

**Gan hynny, gofynnaf i'r mater gael ei gyfeirio i'w drafod yn fanwl gan y Bwrdd mor fuan ag sy'n bosib er penderfyniad terfynol.**

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cyngor ar 8 Gorffennaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 p.m. a daeth i ben am 5:15 p.m.